



## **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

### **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**2:00 y.p. 15 Ebrill 2019**

**Ystafell Bwyllgor 1, Cyngor Sir Ynys Môn**

#### **Presennol:**

##### **Cyngor Sir Ynys Môn**

Cyng. John Griffith  
Cyng. Robin Williams  
Cyng. Richard O Jones  
Cyng. Kenneth P Hughes

##### **Cyngor Gwynedd**

Cyng. Paul Rowlinson  
Cyng. Berwyn Parry Jones  
Cyng. Gareth Griffith  
Cyng. Owain Williams  
Cyng. John Pughe Roberts

##### **Swyddogion:**

Dewi Francis Jones	Prif Swyddog Cynllunio (CSYM)
Rhun ap Gareth	Uwch Gyfreithiwr (CG)
Bob Thomas	Arweinydd Tîm – (UPCC)
Aled Lewis	Uwch Swyddog Cynllunio (UPCC)

Yn absenoldeb Cyng. Richard Dew, cytunwyd i'r Cyng. Gareth Griffith fod yn Gadeirydd i'r cyfarfod

#### **Ymddiheuriadau:**

Cyng. John Brynmor Hughes (CG)  
Cyng. Gareth Roberts (CG)  
Cyng. Bryan Owen (CSYM)  
Cyng. Richard Dew (CSYM)

#### **1. YMDDIHEURIADAU**

Ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod

#### **2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

### 3. **MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

### 4. **COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2019 fel y rhai cywir. Eglurodd Bob Thomas efallai na fydd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar y 23ain Mai 2019 yn debygol o gael ei gynnal, ac efallai bydd eitemau'r cyfarfod hwn yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd olynol ar 14eg Mehefin 2019.

### 5. **CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL**

#### **i) Canllaw Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy**

Cyflwyniad gan Bob Thomas yn egluro'r newidiadau i'r canllaw ers iddo gael ei gyflwyno i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar y 22 Mawrth 2019 ac yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ynglŷn â'r Canllaw Cynllunio Atodol a mabwysiadu'r Canllaw.

Materion a godwyd:

- Codwyd cwestiwn gan y Cyng. Owain Williams ynglŷn â pherthnasedd yr Asesiad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac ail gyflwyno eryr i'r ardal.
- Cytunodd Cyng. Kenneth Hughes fod ystyr y term "lleol" yn y Canllaw yn addas a byddai'n hwyluso pobl lleol i gael tai fforddiadwy.

Ymateb:

- Esboniwyd mai barn sgrinio am Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Canllaw oedd yr asesiadau â ymgwymerwyd yn unol â'r Rheoliadau perthnasol ac nad oedd y sylw'n berthnasol i'r CCA. Fodd bynnag cytunwyd fod y neges yn un pwysig a byddai'n fater i'w godi gyda'r adrannau perthnasol o fewn y Cynghorau unigol yn hytrach nac yn y cyfarfod hwn.

#### **Penderfyniad – Derbyn yr argymhelliad i gymeradwyo'r ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd am y Canllaw Cynllunio Atodol a mabwysiadu'r Canllaw hwn.**

I gloi'r cyfarfod fe wnaeth y Prif Swyddog Cynllunio nodi fod Rebeca Jones wedi ei hapwyntio fel rheolwr newydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ac fe fydd yn cychwyn yn y swydd diwedd mis Mai 2019.